

8. Rheoli'r Gyllideb

Mae'r Bennod hon yn trafod:

- y fframwaith rheoleiddio ar gyfer cyllido ysgolion;
- colli'r hawl i gyllideb ddirprwyedig;
- atgyweirio a chynnal a chadw;
- darparu pryddau ysgol:
- prynu cyngor cyfreithiol;
- rhwymedigaethau'r cyrff llywodraethu
- yswiriant.

Cyllido Ysgolion

1. Mae bron holl incwm ysgol yn dod drwy'r Awdurdod Lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i Awdurdodau Lleol ar gyfer darpariaeth cyn-16 drwy setliad refeniw llywodraeth leol (Grant Cynnal Refeniw) a thrwy drethu lleol. Rhennir yr arian i gyllido darpariaeth ôl-16 gan Lywodraeth Cymru drwy grant penodol. Mae rhwydd hynt i ysgolion godi arian ychwanegol drwy gyfraniadau gwirfoddol gan rieni a phobl eraill a rhoi adeilad yr ysgol at ddefnydd cyrff lleol am rent o dro i dro.

2. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw penderfynu sut i wario'r Grant Cynnal Refeniw. Mae hyn wedi'i seilio ar yr egwyddor mai'r Awdurdod Lleol sy'n gwybod orau beth yw'r anghenion a'r amgylchiadau lleol a nhw felly sydd yn y sefyllfa orau i gyllido ysgolion yn unol â hynny.

3. Mae'r Awdurdodau Lleol yn rhannu cyllid i ysgolion ar ffurf cyllideb ddirprwyedig flynyddol ac mae'r ysgolion yn penderfynu sut i'w wario. Rhaid i bob awdurdod lleol ymgynghori â'i Fforwm Ysgolion cyn pennu cyllideb ysgolion bob blwyddyn gan drafod unrhyw newidiadau y dymunent ei wneud i'w cynlluniau ar gyfer cyllido ysgolion.

4. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Deddf 1998) yn gosod y fframwaith cyfreithiol sy'n caniatáu i'r Awdurdodau Lleol rannu ei gwariant addysg i ysgolion. Daeth [Rheoliadau Cyllido Ysgolion \(Cymru\) 2010](#) i rym ar 1 Medi 2010 ar gyfer blynyddoedd ariannol 2011-12 ymlaen. Roedd y rheoliadau'n dirymu ac yn disodli'r rheoliadau a ganlyn:

- Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Ariannol ALII) (Cymru) 2004;
- Rheoliadau ALII, Cyllidebau Ysgolion a Chyllidebau Ysgolion Unigol (Cymru) 2003; a
- Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion (Cymru) 2004.

5. Cyflwynodd [Adran 45A o Ddeddf 1998](#) ddiffiniadau newydd o 'gyllideb Awdurdod Lleol' sydd bellach yn 'Gyllideb Addysg nad yw ar gyferymwneud

â'r Ysgolion' a 'chyllideb yr ysgolion' ar gyfer ei wario ar ddisgyblion. Mae'r [Rheoliadau Cyllido Ysgolion \(Cymru\) 2010](#) yn gwneud darpariaeth am y cyllidebau hyn a chyllideb ysgolion unigol.

6. Mae **Cyllideb Addysg nad yw ar gyfer Ysgolion** yn ymwneud â swyddogaethau canolog yr Awdurdod Lleol ac mae'n cynnwys costau ddarpariaeth sydd o natur arbenigol, gwella ysgol, mynediad at addysg, addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion a rheolaeth strategol.

7. Mae **Cyllideb yr Ysgolion** yn ymwneud â gwariant sydd wedi'i anelu'n uniongyrchol at gefnogi ysgolion ac efallai bod yr Awdurdod Lleol yn cadw'r arian yn ganolog, er enghraifft i gyllido gwasanaethau AAA, prydau ysgol a llaeth. Mae swm y gwariant a gedwir yn ganolog yn cael ei dynnu o'r Gyllideb Ysgolion a gelwir y gweddill yn **Gyllideb Ysgolion Unigol** a rennir rhwng yr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod a'i dirprwyo iddynt.

8. O dan [Reoliadau Cyllido Ysgolion \(Cymru\) 2010](#), mae **Cyllideb Ysgolion Unigol** yn cael ei rannu i ysgolion ar ffurf cyfrannau, gan ddefnyddio fformiwla cyllido a bennir yn lleol. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol bod 70% o'r cyllid yn cael ei rannu ar sail nifer y disgyblion.

9. Mae gan yr Awdurdodau Lleol ddisgresiwn i ddsbarthu'r 30% o'r cyllidebau sy'n weddill ar sail amryw o ffactorau sydd yn y rheoliadau ee. maint a chyflwr yr adeiladau a'r tir, cyfraddau, glanhau, prydau ysgol a llaeth, cyflogau etc.

10. Yna, mae'r 30% hwnnw o'r gyllideb yn cael ei ddirprwyo i gorff llywodraethu'r ysgol o dan sylw, oni bai bod yr ysgol yn ysgol newydd nad yw wedi cael cyllideb ddirprwyedig eto, neu fod yr hawl i gyllideb ddirprwyedig wedi'i atal yn unol ag adran 51 o Ddeddf 1998.

11. Yn ogystal ag ymgynghori â fforwm ysgol ei ardal, rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â chorff llywodraethu a phennaeth pob ysgol a gynhelir ganddo ynghylch unrhyw newidiadau a gynigir i'r fformiwla cyllido ers y cyfnod cyllido blaenorol.

Cynlluniau Ariannol

12. Mae'r rheolaethau ariannol sy'n pennu'r ffordd y mae'r dirprwyo'n gweithio wedi'i nodi yng Nghynllun yr Awdurdod Lleol ar gyfer Cyllido Ysgolion. Rhaid i bob Awdurdod Lleol, o dan [adran 48 o Ddeddf 1998](#) a [Rheoliadau Cyllido Ysgolion \(Cymru\) 2010](#), gael cynllun yn ei le sy'n ymwneud â chyllido ei ysgolion. Mae'r cynlluniau yn ymwneud â materion fel trefniadau bancio, cyfrifyddu ac archwilio. Rhaid i Awdurdod Lleol gyhoeddi ei gynllun a rhoi copi ohono i gyrrff llywodraethu a phennaeth pob ysgol a gynhelir ganddo.

13. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r cynllun, caiff cyrrff llywodraethu wario cyfran yr ysgol o'r gyllideb at ddibenion yr ysgol. Cânt hefyd wario cyfran yr ysgol o'r gyllideb ar y dibenion ychwanegol a nodir yn [Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion \(Dibenion Rhagnodedig a Diwygiadau](#)

[Canlyniadol](#) ([Cymru](#)) 2008. Mae'r dibenion hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau addysgu a gwasanaethau cysylltiedig ac eitemau i blant a phobl ifanc nad ydynt wedi'u cofrestru yn yr ysgol.

14. Gall y corff llywodraethu ddirprwyo rhai agweddau ar wariant yr ysgol i'r pennaeth. Pan fo'n gwneud hynny, rhaid nodi'r penderfyniad yng nghofnodion y corff llywodraethu.

15. Caiff ysgolion gario cynilon neu ddyled drosodd o un cyfnod cyllido i'r nesaf. Fodd bynnag, rhaid i'r corff llywodraethu roi gwybod i'r Awdurdod Lleol sut y maent yn bwriadu defnyddio'r arian sydd dros ben sy'n fwy na 5% o gyfran yr ysgol o'r gyllideb neu £10,000, p'un bynnag yw'r mwyaf. Os yw'r arian sydd gan yr ysgol dros ben yn fwy na £50k i ysgolion cynradd neu £100k i ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig, caiff yr Awdurdod Lleol roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu ynghylch sut i'w wario. Os nad yw'r corff llywodraethu'n cydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwnnw, caiff yr Awdurdod Lleol ofyn iddynt ad-dalu rhan o'r hyn sy'n weddill, neu'r gweddill i gyd yn ôl. Bydd hwnnw wedyn yn dod yn rhan o Gyllideb Ysgolion yr Awdurdod Lleol ar gyfer y cyfnod cyllido nesaf.

16. Rhaid i'r fforwm ysgolion gymeradwyo unrhyw newidiadau i gynllun ariannol yr Awdurdod Lleol. Os yw'r fforwm ysgolion yn gwrthod cymeradwyo unrhyw newidiadau, gall Awdurdod Lleol wneud cais am gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru .

Atal dirprwyaeth ariannol

17. Mae adran 51 o Ddeddf 1998 yn rhoi pŵer i Awdurdodau Lleol atal hawl ysgol i gyllideb ddirprwyedig yn yr amgylchiadau a ganlyn—

- (a) os yw corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio'n sylweddol neu'n gyson ag unrhyw gofynion y dirprwyo,
- (b) os nad ydynt yn rheoli'n foddhaol y gwariant neu arian y gyllideb ddirprwyedig
- (c) os nad ydynt yn rheoli'n foddhaol unrhyw wariant a symiau sy'n cael eu derbyn wrth arfer eu pwerau i ddarparu cyfleusterau i'r gymuned o dan [adran 27](#) o Ddeddf Addysg 2002.

Datganiadau ariannol

18. O dan [adran 52 o Ddeddf 1998](#) rhaid i bob Awdurdod Lleol gyflwyno datganiad cyllideb ('datganiad adran 52') sy'n manylu ar ei wariant arfaethedig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

19. Mae datganiad adran 52 yn manylu ar faint o arian a gedwir yn ganolog gan yr awdurdod, y gyfran o'r gyllideb i bob ysgol, y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r cyfrannau hynny a'r cyfrifiad manwl ar gyfer pob ysgol. Rhaid i Awdurdod Lleol roi copi o'i datganiad adran 52 i gorff llywodraethu a phennaeth pob ysgol a gynhelir ganddo. O dan [Reoliadau Addysg](#)

[\(Datganiadau Cyllideb\) \(Cymru\) 2002](#) rhaid i Awdurdodau Lleol roi copi i Lywodraeth Cymru a sicrhau bod copïau ar gael yn gyhoeddus.

20. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i Awdurdod Lleol gyhoeddi datganiad yn dangos y gwariant alldro a aed iddo mewn gwirionedd yn ystod y flwyddyn ar lefel ganolog ac ar gyfer pob ysgol, a'r arian sy'n weddill gan bob ysgol.

21. Mae'n rhaid i'r ddau fath o ddatganiad gael ei harchwilio'n ardystiedig gan Swyddfa Archwilio Cymru os yw Llywodraeth Cymru yn dweud bod rhaid gwneud hynny yn unol ag [adran 53A o Ddeddf 1998](#). Cesglir a chyhoeddir yr wybodaeth yn y datganiadau gan Lywodraeth Cymru ar y wefan a ganlyn:

<https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue>

<http://www.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/fundingschools/schoolfunding/?lang=cy>

22. Gellir dod o hyd i wybodaeth am gyllido ysgolion yng Nghymru ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/schools/schoolfunding/?lang=cy>

Colli'r Hawl i Gyllideb Ddirprwyedig

23. Soniwyd eisoes y gall Awdurdod Lleol atal hawl ysgol i gyllideb ddirprwyedig o dan rai amgylchiadau (gweler paragraff 17). Pan fo Awdurdod Lleol yn penderfynu gwneud hynny, rhaid iddo roi gwybod i bennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol dan sylw, fel arfer gan nodi'r rhesymau. Mae'n ofynnol bod yr awdurdod lleol yn adolygu'r ataliad o fewn cyfnod penodol (neu caiff wneud hynny'n gynt os yw'n dymuno).

24. Prif effaith atal yr hawl i gyllideb ddirprwyedig yw bod y corff llywodraethu'n colli'r hawl i benderfynu sut i wario'r gyllideb (ac eithrio i raddau os yw'r Awdurdod Lleol yn penderfynu felly); ac yn colli'r rhan fwyaf o'i bwerau staffio.

25. Gall Awdurdod Lleol atal hawl ysgol i gyllideb ddirprwyedig os yw'r Awdurdod Lleol wedi ymyrryd yn y modd y mae ysgol yn cael ei rhedeg o dan adran 8 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013; os yw hyn yn digwydd, mae'r ataliad hwnnw'n cael yr un effaith ag ataliad a wneir o dan Ddeddf 1998. Mae colli'r hawl ysgol i gyllideb ddirprwyedig yn ddigwyddiad prin a dylai barhau felly, oherwydd dylai Awdurdodau Lleol ac ysgolion drafod unrhyw broblemau a allai arwain at ataliad a gweld a oes modd eu datrys cyn i'r bod angen camau ffurfiol. Felly, dylai ysgolion gydweithio â systemau monitro'r Awdurdod Lleol sydd wedi'u llunio i ddod o hyd i broblemau ariannol, ac ymateb iddynt mewn ffordd gadarnhaol.

Atgyweirio a Chynnal a chadw

26. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw cynnal a chadw adeiladau ysgolion cymunedol, ysgolion cymunedol arbennig, ysgolion meithrin a gynhelir ac ysgolion gwirfoddol a reolir, er bod hyn yn aml yn cael ei ddirprwyo i'r corff llywodraethu gyda'r cyllid angenrheidiol. Fel rheol, telir y costau hyn o gyfran yr ysgol o'r gyllideb, oni bai bod y gwariant ar y gwaith dan sylw yn cyfri fel gwariant cyfalaf o dan gynllun yr Awdurdod Lleol ar gyfer cyllido ysgolion. Gan amlaf, bydd cynlluniau'n cynnwys arweiniad ar ba fath o waith sy'n dod i'r categori hwn. Dylid ymgynghori â'r awdurdod pan fo unrhyw amheuaeth.
- VA 27. Rhennir y cyfrifoldeb am ddarparu, atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr rhwng llywodraethwyr yr ysgol a'r Awdurdod Lleol. Mae'r llywodraethwyr yn gyfrifol am adeiladau'r ysgol. Ond yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw'r tu mewn i'r ysgol ac am ddarparu'r gegin, y neuadd fwyta, yr ystafell archwiliadau meddygol, tŷ'r gofalwr a'r caeau chwarae yn y lle cyntaf. O dan baragraff 5 o atodlen 3 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae gan Lywodraeth Cymru y **pŵer** i roi grant o hyd at 85% o gostau cymeradwy'r llywodraethwyr, gyda'r llywodraethwyr yn dod o hyd i'r 15% sy'n weddill.
- VA 28. Mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, darperir cymorth ariannol ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw cyfalaf y bernir ei fod yn gyfrifoldeb i'r llywodraethwyr drwy Raglen Atgyweirio a Chynnal a Chadw'r Gyllideb Gyfalaf. Dylid gofyn cyngor y Cyfarwyddwr Esgobaeth perthnasol mewn perthynas â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw cyfalaf mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr. Dylai llywodraethwyr drafod â'r Awdurdod Lleol unrhyw fwriad i newid eitemau cyfredol y mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am eu hatgyweirio fel arfer.

Darparu Prydau Ysgol

29. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw darparu prydau a llaeth am ddim i ddisgyblion cymwys, darparu cinio wedi'i dalu amdano pan fo'r gofyn a chydymffurfio â safonau maeth cenedlaethol, oni bai bod gorchymyn wedi cael ei wneud o dan adran 512A o Ddeddf Addysg 1996. O dan orchymyn o'r fath, trosglwyddir dyletswyddau'r Awdurdod Lleol i'r corff llywodraethu. Gwneir y gorchymynion hyn pan fo cyllid yn cael ei ddirprwyo.
30. Pan fo gan gyrff llywodraethu gyfrifoldebau o'r fath, cânt wneud darpariaeth drwy drefniadau sydd wedi eu negodi ganddynt neu drwy brynu gwasanaeth arlwygo yn ôl gan yr Awdurdod Lleol. Nid yw hyn yn symud y dyletswydd cyfreithiol yn ôl i'r Awdurdod Lleol.
31. Er bod y cyflenwyr bwyd eu hunain yn gorfod cydymffurfio â deddfwriaeth amrywiol sy'n ymwneud â bwyd, mae gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus sy'n cyflenwi bwyd ddyletswydd i arfer diwydrwydd dyladwy effeithiol er mwyn sicrhau ansawdd a chydymffurfiaeth eu cyflenwyr a sicrhau bod trefniadau yn eu lle i olrhain bwyd yn llawn, yn enwedig ar gyfer cynnyrch cig. Disgwylir i gyflenwyr gael system Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli

Critigol ddigonol yn ei lle. Mae hyn yn effeithio ar y broses o gyflenwi, paratoi, pacio, storio a dosbarthu bwyd. Argymhellir bod sefydliadau'n sicrhau bod eu contractau/cyflenwyr bwyd yn cael archwiliad hylendid bwyd. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau arferion gorau i sefydliadau yn y sector cyhoeddus drwy Ganllaw Cynllunio Caffael Bwyd Gwerth Cymru ar www.prynwchigymru.co.uk yn ogystal â'r Siarter Bwyd, 'Prynu Bwyd Diogel ar gyfer y Plât Cyhoeddus: Dull Newydd i Gymru o ran Caffael Bwyd' a'r canllaw bwyd cynaliadwy, 'Cnoi Cil'.

Prynu Cyngor Cyfreithiol

32. Rhaid i gynllun cyllido ysgolion Awdurdod Lleol fanylu ar y trefniadau ar gyfer darparu cyngor cyfreithiol i gorff llywodraethu. Mae rhwydd hynt i gorff llywodraethu brynu cyngor cyfreithiol gan unrhyw un o'u dewis nhw ac nid oes rhaid iddynt gymryd cyngor gan yr Awdurdod Lleol yn unig.

Rhwymedigaethau'r Cyrff Llywodraethu

33. Yn rhinwedd [adran 50\(7\) o Ddeddf 1998](#) nid yw llywodraethwyr yn atebol yn bersonol am unrhyw beth a wneir yn ddiwyll wrth arfer eu pŵer i wario cyfran yr ysgol o'r gyllideb, na dirprwyo'r pŵer hwnnw i'r pennaeth.

Yswiriant

34. Mae talu am yswiriant neu gael polisi ar ran y corff llywodraethu yn rhan o ddyletswydd Awdurdod Lleol mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir. Rhaid i'r Awdurdod Lleol benderfynu pa drywydd i'w gymryd. Os yw'r Awdurdod Lleol yn penderfynu cael polisi ei hun, yna rhaid i'r corff llywodraethu edrych yn fanwl ar delerau'r polisi i sicrhau bod y corff a'r Awdurdod Lleol yn meddu ar yswiriant digonol. Dylai'r corff llywodraethu gael copi i wirio p'un a oes ganddo yswiriant digonol o ran atebolrwydd cyhoeddus. Os nad oes modd i gyrff llywodraethu weld y polisi, ni allant fodloni'u hunain bod ganddynt yswiriant digonol yn ei le Os na chyfeirir yn benodol at gorff llywodraethu, neu grŵp o gyrff llywodraethu, fel rhai sy'n dod o dan y polisi, yna dylid newid y polisi'n unol â hynny.

35. Er bod amryw o gategoriâu o yswiriant, mae'r prif eitemau'n ymwneud â diogelu adeiladau ac yswiriant atebolrwydd. Efallai y bydd Awdurdod Lleol yn dirprwyo cyllid yswiriant yn rhannol neu'n gyfan gwbl i ysgolion ac, fel arfer, byddant naill ai'n talu i fod yn rhan o drefniant yr awdurdod lleol neu'n gwneud trefniadau gwahanol.

36. Eto, caiff yr Awdurdod lleol bennu'r lleiafswm sydd ei angen o ran yswiriant, ac yn aml maent yn meddu ar y pŵer i sicrhau'r lefel hwnnw o yswiriant gan gymryd y gost o gyfran yr ysgol o'r gyllideb os nad yw'r corff llywodraethu'n cael yswiriant digonol; nid oes gofyn i'r swm a ddirprwyir gyfateb yn union i'r gost o sicrhau'r yswiriant.

VA 37. Dylai cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr drafod yswiriant gyda'u Hesgobaeth; nid yw Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am unrhyw

faterion sy'n ymwneud ag yswiriant adeiladau nag unrhyw faterion yswiriant eraill.

38. Dylai cyrff llywodraethu hefyd sicrhau bod ganddynt yswiriant atebolrwydd cyflogwyr, yswiriant tân ac yswiriant adeiladau. Os mai'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am y polisi, dylai cyrff llywodraethu ofyn a yw'r yswiriant yn cynnwys y risgiau hyn. Os nad ydyw, cynghorir bod y corff llywodraethu yn cael polisi ei hun.

Yn fras

Y Corff Llywodraethu

- mae'r corff llywodraethu yn penderfynu sut i wario'r gyllideb ddirprwyedig, yn dibynnu ar unrhyw amodau a geir yng nghynllun yr Awdurdod Lleol ar gyfer ariannu ysgolion.
- rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â'r corff llywodraethu ar unrhyw newidiadau a wneir i gynllun yr awdurdod ar gyfer cyllido ysgolion
- rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu cadw'n gywir.

Y Pennaeth

- gall y pennaeth reoli rhai agweddau ar wariant os yw'r corff llywodraethu'n gofyn iddo wneud hynny.

Deddfwriaeth

[Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998](#), adrannau 43 i 53 ac atodlenni 14 a 15.

[Rheoliadau Addysg \(Datganiadau Cyllideb\) \(Cymru\) 2002](#)

[Rheoliadau Cyfrannau Cyllideb Ysgolion \(Dibenion Rhagnodedig a Diwygiadau Canlyniadol\) \(Cymru\) 2008](#)

[Rheoliadau Cyllido Ysgolion \(Cymru\) 2010](#)

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013